**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR AC AR ZOOM DDYDD IAU, 18 MAI 2023**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir G W Ratcliffe, D Bebb, M Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, L Brighouse, J Charlton, R Church, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, L George, J Gibson-Watt, I Harrison, K Healy, H Hulme, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, G Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, J Wilkinson, A Williams, D H Williams a J M Williams

| 1. | ETHOL CADEIRYDD |
|---|---|

Diolchodd y Cadeirydd oedd yn gadael, y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe, i'r Aelodau am roi'r anrhydedd iddo gael cynrychioli'r Cyngor dros y deuddeg mis diwethaf. Cyflwynodd fathodynnau am wasanaeth hir i'r Cynghorwyr Sir Sandra Davies, David Meredith, William Powell, Susan McNicholas, Arwel Jones, James Gibson-Watt a Peter Lewis i gydnabod dros 15 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor a'u cymunedau. Byddai hefyd yn ysgrifennu at yr aelodau hynny oedd wedi gwasanaethu am gyfnod hir nad oedd wedi dychwelyd yn dilyn yr etholiadau yn 2022. Rhoddodd deyrnged arbennig i'r Cynghorydd Gareth Morgan a fu'n aelod ers 1973 a'r Cynghorydd Michael Williams a fu'n gwasanaethu ers 1980 a chyflwynodd anrhegion a bathodynnau i'r ddau. Gwnaeth gyflwyniad hefyd i Wyn Richards, y Rheolwr Craffu, a oedd yn ymddeol o'i swydd ym mis Gorffennaf.

Rhoddodd y cynghorwyr deyrnged i'r Cynghorydd Ratcliffe am y ffordd yr oedd wedi arwain y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Beverley Baynham gan y Cynghorydd Sir Ange Williams a chafodd ei heilio gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts. Yn unfrydol

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Beverley Baynham yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

Diolchodd y Cynghorydd Baynham i'r Aelodau am eu cefnogaeth. Dywedodd y byddai'n cefnogi nifer o elusennau Powys yn ei blwyddyn yn y swydd a gwahoddodd yr Aelodau i roi gwybod iddi am unrhyw achosion da yn eu wardiau.

| 2. | ETHOL IS-GADEIRYDD |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Heulwen Hulme. Yn unfrydol

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

| 3. | ETHOL IS-GADEIRYDD CYNORTHWYOL |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir William Powell gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton. Yn unfrydol

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir William Powell yn Is-Gadeirydd Cynorthwyol am y flwyddyn i ddod.**

| 4. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir S J Beecham, A Cartwright, T Colbert, J Pugh and S L Williams. Hysbyswyd y Cyngor bod y Cynghorydd Cartwright wedi gofyn am ganiatâd i gael cyfnod o absenoldeb.

**PENDERFYNWYD caniatáu cyfnod o absenoldeb i'r Cynghorydd Anita Cartwright tan 31 Awst 2023.**

| 5. | DATGANIADAU O FUDDIANT |
|---|---|

Roedd gan bob Aelod fuddiant personol ond nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 9, Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau.

| 6. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Sir Susan McNicholas a oedd yn rhoi'r gorau i'w rôl fel cyd-Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a rhoddodd deyrnged i'w gwaith yn y rôl honno. Cyflwynodd Jack Straw a oedd wedi cytuno i weithredu fel Prif Weithredwr dros dro tra roedd Dr Caroline Turner ar absenoldeb salwch.

| 7. | DIWEDDARIAD GAN Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO |
|---|---|

Dywedodd y Prif Weithredwr dros dro y byddai'n canolbwyntio ar berfformiad mewn meysydd gwasanaeth allweddol ac yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwyr. Byddai hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ar baratoi ar gyfer y dyfodol a datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r Bwrdd Iechyd. Adroddodd hefyd fod Sharon Powell wedi'i phenodi'n Bennaeth Gwasanaethau Plant a Sharon Frewin yn Bennaeth Gwasanaethau Oedolion.

| 8. | DYRANIADAU, ETHOLIADAU A PHENODIADAU Y MAE'N OFYNNOL EU GWNEUD YNG NGHYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro ar y dyraniadau a'r penodiadau i'w gwneud i bwyllgorau a chyrff allanol.

**Penodiadau heb Gydbwysedd Gwleidyddol i Bwyllgorau'r Cyngor**
**Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Morgan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance a

**PHENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Sir Beverley Baynham a William Powell i lenwi'r seddi gwag i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau tan etholiadau arferol nesaf y Cyngor yn 2027.**

**Penodiadau gyda Chydbwysedd Gwleidyddol i Bwyllgorau'r Cyngor**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Huw Williams a'r Cynghorydd Sir Gareth E Jones a

**PHENDERFYNWYD cymeradwyo dyrannu seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor i'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol yn unol â Thudalen 3 o Atodiad 3 yr adroddiad.**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir David Thomas a

**PHENDERFYNWYD gwneud penodiadau i Bwyllgorau yn unol â dymuniadau'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol fel y nodir yn Atodiad 5 yr adroddiad.**

**Penodiadau gyda Chydbwysedd Gwleidyddol i Gyrff Allanol Perthnasol**

Dywedodd y Cynghorydd Sir Aled Davies na fyddai grŵp y Ceidwadwyr yn gwneud penodiad i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Sir Ed Jones, William Powell, Gareth Ratcliffe, Edwin Roderick a Huw Williams i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Sir Jackie Charlton, Matthew Dorrance a James Gibson-Watt i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

**Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman a

**PHENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir James Gibson-Watt i Fwrdd Gweithredol CLILC (WLGA).**

**Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts a

**PHENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Angela Davies yn Gadeirydd Pwyllgor Craffu'r Economi, Preswylwyr a Chymunedau, y Cynghorydd Sir Amanda Jenner yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal a'r Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau.**

**Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Pete Lewington gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Ian Harrison. Enwebwyd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Graham Breeze. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**Panel Craffu ar Denantiaid**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Jones a

**PHENDERFYNWYD penodi’r Cynghorydd Joy Jones i’r Panel Craffu ar Denantiaid.**

## 9. RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Swyddog Monitro yr aelodau fod ganddynt fuddiant personol ond nad oedd yn rhagfarnu yn y mater hwn a olygai y dylent gofnodi eu buddiant ond eu bod yn gallu siarad a phleidleisio.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Edwin Roderick ac o 55 pleidlais i 0 gyda 6 yn ymatal.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo’r argymhelliad i ddyrannu hyd at 17 (fel y’i diwygiwyd) o Uwch Gyflogau fel y manylir yn eu cylch yn adran 4 yr adroddiad hwn.**

**(ii) Cymeradwyo cyhoeddi Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau yn seiliedig ar yr adroddiad.**

## 10. Y CYFANSODDIAD - ADRAN 4

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnig diwygiadau i'r Cyfansoddiad.

**Eilio Cynigion**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Pete Lewington a

**PHENDERFYNWYD**

**(i) Diwygio Rheol 4.41 y Cyfansoddiad i'r perwyl na all Cynghorydd eilio mwy na dau gynnig i'r Cyngor ar gyfer unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor;**

**(ii) cymeradwyo'r diwygiad a awgrymwyd i Reol 4.41 yn y Cyfansoddiad fel y nodir ym mharagraff 2.3 yr adroddiad.**

**Cynigion Brys**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth E Jones a

**PHENDERFYNWYD**

**(i) Bod y gofyniad am ddadansoddiad wedi'i gostio yn cael ei eithrio ar gyfer cynigion brys;**

**(ii) Cymeradwyo'r Rheol 4.43.5 newydd a awgrymir ar gyfer y Cyfansoddiad fel y nodir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.**

**Gwelliant i Gynigion**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Danny Bebb a

**PHENDERFYNWYD**

**(i) Dileu Rheol 4.49.1.5 o'r Cyfansoddiad er mwyn cael gwared ar y cyfle am welliant arall sy'n negyddu neu a fyddai fel arall yn newid sylwedd hanfodol y cynnig gwreiddiol.**

**(ii) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i ddileu Rheol 4.49.1.5 o'r Cyfansoddiad a gwneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol eraill a allai fod yn ofynnol.**

| 11. | FFYRDD NEWYDD O WEITHIO - CYFARFODYDD AELODAU |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn trafod y model gweithio newydd a oedd yn rhoi'r hyblygrwydd i aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell, a gyflwynwyd o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Roedd yr adroddiad yn nodi manteision y trefniadau presennol er yn cydnabod gwerth cyfarfod yn bersonol o bryd i'w gilydd.

Argymhellwyd:

- parhau â'r trefniadau gwaith presennol.
- gofyn i'r Cadeiryddion Craffu benderfynu, gyda'u pwyllgor, sut yr hoffent weithio.
- bod pob Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn wyneb yn wyneb.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Graham Breeze y gwelliant canlynol a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Heulwen Hume

Bod yr argymhelliad yn cael ei aralleirio fel a ganlyn:

O:

- parhau â'r trefniadau gwaith presennol.
- gofyn i'r Cadeiryddion Craffu benderfynu, gyda'u pwyllgor, sut yr hoffent weithio.
- bod pob Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn wyneb yn wyneb.

I:

- Parhau â'r trefniadau gwaith presennol gydag adolygiad blynyddol i'w drafod yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- gofyn i'r Cadeiryddion Craffu benderfynu, gyda'u pwyllgor, sut yr hoffent weithio.
- Bod pob pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn wyneb yn wyneb.
- Bod Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio hefyd yn gallu penderfynu pryd y mae angen cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn seiliedig ar gynnwys ceisiadau cynllunio.

Collwyd y gwelliant o 19 pleidlais i 30 gyda 2 welliant.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Graham Breeze ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried ymhellach. O 60 pleidlais i 2

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried ymhellach.**

## 12. TROSGLWYDDIADAU CYLLIDEB

Ystyriodd y Cyngor geisiadau am drosglwyddiadau cyllideb mewn perthynas â chludiant ysgol a chludiant cyhoeddus a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Sir David Thomas ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies ac o 52 pleidlais i 0 gyda 6 yn ymatal

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir yn adran 2.3 yr adroddiad er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau ariannol perthnasol.**

## 13. NEWIDIADAU I STRWYTHUR Y TÎM RHEOLI GWEITHREDOL DROS DRO

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro yn cynnig ymestyn y penodiadau dros dro i'r swyddi canlynol am gyfnod pellach o hyd at ddeuddeng mis arall: -

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
- Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
- Pennaeth Trawsnewid a Gwasanaethau Democrataidd
- Pennaeth Tai
- Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol
- Pennaeth Comisiynu a Phartneriaethau

**PENDERFYNWYD cymeradwyo ymestyn y trefniadau dros dro ar gyfer y swyddi a amlinellwyd ym mharagraff 3.1 yr adroddiad am gyfnod pellach o hyd at ddeuddeng mis arall.**

| 14. | TROSGLWYDDIAD CYLLIDEB I GEFNOGI PROSIECT 'CREU TIMAU SY'N CANOLBWYNTIO AR ARDALOEDD' Y GWASANAETHAU TAI |
|---|---|

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi wedi cytuno y gellid cymryd yr eitem hon fel eitem frys fel nad oedd y Cyngor yn colli'r cyfle i gyflogi cyflenwyr ychwanegol i ymuno â'r Cyngor.

Hysbyswyd y Cyngor bod y Gwasanaethau Tai wedi cynnal ymarfer recriwtio llwyddiannus iawn ar gyfer cyflenwyr a gweithwyr i ymuno â'r Cyngor i ddarparu Tîm Atgyweirio a Chynnal a Chadw Tai lleol ar gyfer pob ardal rheoli tai.

Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac fe'i heiliwyd yn briodol, ac o 60 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trosglwyddiadau, o fewn Cynllun Busnes CRT (HRA) 2023-2024 fel y nodir yn nhabl 9.1. yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)**